OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1979

# Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000

## RHAN II

### COFRESTRU ATHRAWON

**Anghymhwyso rhag cofrestru**

**3.** At ddibenion adran 3(3)(d) o Ddeddf 1998, nid yw person yn gymwys i'w gofrestru os yw'n anghymwys i'w gofrestru fel athro neu athrawes, neu wedi'i anghymhwyso rhag bod yn athro neu'n athrawes mewn unrhyw ysgol, yn rhinwedd —

(a) adran 11 o Ddeddf y Cyngor Addysgu (Yr Alban) 1965(**1**);

(b) rheoliad 9 o Reoliadau Athrawon (Cymhwyster) (Gogledd Iwerddon) 1997(**2**); neu

(c) rheoliadau a wneir o dan erthygl 36 o Orchymyn Addysg (Gogledd Iwerddon) 1998(**3**)).

**Ceisiadau am gofrestru**

**4.**—(1) Rhaid i gais am gofrestru gynnwys —

(a) y rhif cyfeirnod swyddogol, os oes un, a ddyrannwyd i'r athro neu'r athrawes;

(b) enw llawn y ceisydd;

(c) dyddiad geni'r ceisydd;

(c) cyfeiriad cartref neu gyfeiriad cyswllt arall y ceisydd; a

(d) y dyddiad yr enillodd y ceisydd gymhwyster athro neu athrawes.

(2) Caiff y Cyngor wneud darpariaeth bellach ynghylch —

(a) y ffurf a'r dull ar gyfer gwneud ceisiadau am gofrestru; a

(b) y dystiolaeth ddogfennol a'r dystiolaeth arall sydd i gyd-fynd â cheisiadau am gofrestru.

**Cofrestru pan sefydlir y Gofrestr**

**5.**—(1) Pan sefydlir y Gofrestr, caiff y Cyngor gofrestru personau sy'n gymwys i'w cofrestru nad ydynt wedi gwneud cais am gofrestru.

(2) Rhaid i'r Cyngor anfon cadarnhad ysgrifenedig eu bod wedi'u cofrestru at bob person a gofrestrir o dan baragraff (1).

(3) Rhaid i'r Cyngor ddarparu, yn ddi-dâl, gopi o'r wybodaeth a gofnodir yn y Gofrestr wrth ochr enw person a gofrestrir o dan baragraff (1), os bydd y person hwnnw'n gofyn amdano.

(**1**) 1965 p.19.
(**2**) S.R. (G.I.) 1997 Rhif 312.
(**3**) O.S. 1998 Rhif 1759 (G.I. 13).

**Cynnwys y Gofrestr**

**6.**—(1) Cofnodir yn y Gofrestr, wrth ochr enwau'r rhai a gofrestrir ynddi, y materion a restrir yn Atodlen 1.

(2) Caiff y Cyngor wneud darpariaeth ynghylch materion ychwanegol i'w cofnodi yn y Gofrestr.

**Rhannu'r Gofrestr yn rhannau ar wahân**

**7.** Caiff y Cyngor wneud darpariaeth ynghylch rhannu'r Gofrestr yn rhannau ar wahân.

**Diwygio cofnodion yn y Gofrestr**

**8.** Caiff y Cyngor wneud darpariaeth ynghylch adfer a newid cofnodion yn y Gofrestr, a throsglwyddo cofnodion rhwng rhannau gwahanol o'r Gofrestr.

**Codi ffioedd cofrestru**

**9.** Caiff y Cyngor wneud darpariaeth —

(a) ar gyfer codi ffioedd a bennir gan y Cyngor gyda chymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas —

(i) â cheisiadau am gofrestru neu am adfer cofnodion yn y Gofrestr, a

(ii) â chadw cofnodion yn y Gofrestr;

(b) ar gyfer eithriadau lle na chaiff ffioedd eu codi; ac

(c) i'r Cyngor wrthod cais am gofrestru nes bod y ffi briodol wedi'i thalu.

**Tynnu cofnodion oddi ar y Gofrestr**

**10.** — Caiff y Cyngor wneud darpariaeth ynghylch tynnu cofnodion oddi ar y Gofrestr pan yw'r personau o dan sylw wedi peidio â bod yn gymwys i'w cofrestru, wedi methu â thalu ffi gofrestru, neu fel arall.

**Rhoi tystysgrifau cofrestru, a'u ffurf**

**11.** Caiff y Cyngor wneud darpariaeth ynghylch rhoi tystysgrifau cofrestru i athrawon ac athrawesau cofrestredig, ac ynghylch ffurf y tystysgrifau hynny.

**Hawl y cyhoedd i gael gwybodaeth o'r Gofrestr**

**12.**—(1) Pan ddaw cais i law oddi wrth aelod o'r cyhoedd, caiff y Cyngor roi gwybod i'r person hwnnw a yw person yn athro neu'n athrawes gofrestredig neu beidio.

(2) Rhaid i gais o dan baragraff (1) gynnwys y manylion hynny y bydd y Cyngor yn eu pennu.

(3) Caiff y Cyngor drefnu bod enwau athrawon ac athrawesau sydd ar y Gofrestr ar gael yn y modd y bydd y Cyngor yn ei bennu.